

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych 2021

Beirniadaeth Cystadleuaeth y Gadair

Eurig Salisbury a Peredur Lynch

Daeth tair cerdd ar ddeg i'r gystadleuaeth eleni, a does yr un heb ei rhinweddau. Yr anhawster â cherddi *Iago*, *Celyn*, *Andrew Marr*, *Nick Servini*, *Enidwen* a *Llewelyn* yw eu bod yn rhy fyr, yn anffodus, i'w hystyried o ddifri yn y gystadleuaeth hon, ond mae'n eglur fod ganddynt ddawn i drin geiriau. Tynnwch y ffrwyn y tro nesaf, ac fe ewch yn llawer uwch yn y gystadleuaeth!

Cafwyd cerddi mwy swmpus o lawer gan bedwar arall, sef *Ddoe*, *Hafan*, *Jay Gatsby* a *Mungo Jerry*. Cerddi yn y wers rydd yw'r rhain ac eithrio soned a chyfres o gwpledi odledig yng nghasgliad *Mungo Jerry*. Ef yw'r sicraf ei ddawn o'r pedwar hyn, ond ceir tuedd yng ngwaith pob un ohonynt i draethu'n annelwig gyffredinol yn hytrach na chonsurio un darlun byw neu drafod un syniad eglur. Eto i gyd, mae gan y pedwar glust fain a'r gallu i greu trosiadau dyfeisgar, arwyddion eglur fod gwell i ddod ganddynt yn fuan iawn.

Y tri sydd ar y brig yw *Alun*, *Denzil* a *Pump*. Cafwyd gan *Alun* rai o gerddi mwyaf cyffrous a dyrys y gystadleuaeth. Cyflwynodd gasgliad o gerddi sydd, hyd y gwelwn ni, yn disgrifio perthynas wedi mynd ar chwâl. Mae gan *Alun* y gallu i lunio ymadroddion crefftus a thwyllodrus o syml – mae merch yn 'hastu i ymlusgo' a chariadon yn 'syrthio'n llithrig braf / rhwng dwy sws' – ac mae ar ei orau pan lwytha fanion cyffredin bob dydd â rhyw arwyddocâd sinistr neu ddiereidus.

Eto i gyd, er darllen ac ailddarllen, fe fethon ni ddilyn union drywydd y casgliad fel cyfanwaith. Rhoddwyd yn deitlau i'r cerddi enwau rhai o'r symudiadau yng ngwaith cerddorol enwog *Camille Saint-Saëns*, 'Cárnifal yr Anifeiliaid'. At hynny, rhagflaenir y gwaith â dyfyniad o'r wythfed salm ond, er pendroni'n hir, mae union arwyddocâd hynny oll yn dywyll i ni.

Cafwyd gan *Denzil* awdl goffa i'r sawl a ysbrydolodd y ffugenw hwnnw, sef *Denzil Tucker*, neu 'Dats'. Mae'r cynganeddu'n loyw, er gwaethaf ambell lithriad, a'r dweud yn ddisglair iawn mewn

mannau, yn arbennig mewn cyfres o englynion lle disgrifir Denzil yn mynd i'w waith mewn pwll glo:

Lawr fesul cell o linellau – daw gwŷr
i fyd gwaith â'u harfau,
i fyd yr hen ogofâu,
i hirnos y llusernau.

Ceir rhwyfaint o or-ddweud, yn arbennig tua'r diwedd, ond y mae'r awdl yn sicr yn deyrnged deilwng i'r sawl a goffeir. Yng ngeiriau cofiadwy'r bardd, 'Galaraf, ond gweithiaf gân', ac mae'r cynildeb hwnnw'n ddigon i ddangos fod *Alun* wedi dod yn agos iawn at gipio'r Gadair eleni.

Fe'i trechwyd gan awdl arall, un sy'n dangos yr un medrusrwydd cynganeddol ond sydd hefyd yn feiddgar ac yn ddyfeisgar. Man cychwyn awdl *Pump* yw'r ffaith fod traean o blant Cymru'n byw mewn tlodi heddiw, er gwaethaf addewid Llywodraeth Cymru i ddod â thlodi plant i ben erbyn 2020. Tania'r anghyfiawnder hwnnw awdl *Pump*, sy'n drwm ei lach ar eiriau gweigion y gwleidyddion. Lluniodd ddarlun teimladwy o fachgen ifanc a'i fam, o bosib, yn ceisio dygymod â thlodi, a darlun deifiol hefyd o ddifaterwch ein cymdeithas. Gall amrywio ei fesurau'n grefftus a chynganeddu'n llifeiriol ac yn gypledol yn ôl y galw. Rhaid canmol yn arbennig y tri phennill meistrolgar ar fesur y gwawdodyn sy'n cloi'r awdl.

Am iddo lwyddo i ganu cerdd grefftus i'n cywilyddio, mae *Pump*, yn ein barn ni'n dau, yn haeddu clod a Chadair yr Eisteddfod eleni.